

Carl Sargeant AC / AM
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-422
Ein cyf/Our ref CS/01113/13

William Powell AC

William.powell@wales.gov.uk

26 Mehefin 2013

Annwyl William

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Mehefin ynghylch ystyriaeth y Pwyllgor Deisebau o'r ddeiseb yn ymwneud â Ffracio, ac yn gofyn pa ymchwil a chyngor annibynnol mae Llywodraeth Cymru wedi'i dderbyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried canfyddiadau nifer o bapurau ymchwil a gyhoeddwyd, gan gynnwys adolygiad Mehefin 2012 o dystiolaeth wyddonol a pheirianyddol ar ffracio hydrolog fel ffordd o echdynnu nwy siâl yn y DU, gan yr Academi Frenhinol Peirianeg a'r Gymdeithas Frenhinol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio ar hyn o bryd gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, sydd wedi comisiynu ymchwil i nwy anghonfensiynol sef 'Monitoring and Control of Fugitive Methane from Unconventional Gas Operations' a 'Review of Assessment Procedures for Shale Gas Well Casing'.

Mae swyddogion Polisi Ynni yn parhau i fod mewn cysylltiad ag arbenigwyr daearegol gan gynnwys Arolwg Daearegol Prydain ar faterion yn ymwneud â nwy anghonfensiynol, ac ar hyn o bryd maent yn ystyried comisiynu ymchwil penodol i edrych ar echdynnu a datblygu nwy anghonfensiynol, gan gynnwys ffracio hydrolog.

Fel y nodais yn fy llythyr blaenorol ar 7 Mai 2013, mae fy swyddogion yn parhau i fod mewn cysylltiad â Llywodraeth y DU a'r asiantaethau priodol er mwyn datblygu tystiolaeth gadarn a chyson, gan adolygu'r angen i gynhyrchu canllawiau cynllunio newydd wrth i'r dystiolaeth hon ymddangos.

Carl Sargeant AC / AM
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration